# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Penybontfawr**

**Canolfan Pennant**
**Penybontfawr**
**Croesoswallt**
**SY10 0NT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

**08/05/2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Penybontfawr wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 20 o blant. Mae'r plant sy'n mynychu rhwng 2 a 4 oed. Mae'n gweithredu o Neuadd Gymunedol Penybontfawr sydd mewn pentref gwledig. Caiff y neuadd ei defnyddio hefyd gan yr ysgol gyfagos, Ysgol Gynradd Pennant. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lleoedd a ariennir ar gyfer plant 3 oed ac mae hefyd yn cael ei arolygu gan ESTYN. Mae ar agor ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Iau rhwng 08.45 a 11.45 ac ar ddydd Gwener rhwng 13.00 a 15.30. Caiff y gwaith o redeg y gwasanaeth ei oruchwylio gan berson cofrestredig, sef Heddys Jones. Caiff ei chynorthwyo gyda'i dyletswyddau gan berson â chyfrifoldeb a phwyllgor gwirfoddol. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir yn y lleoliad ac mae'n darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Statws |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae hwn yn wasanaeth gyda phlant egnïol a hapus, sy'n edrych yn gartrefol. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau ac yn mynegi eu hunain yn hyderus. Mae ymarferwyr gofalgar a phroffesiynol yn darparu ar gyfer y plant ac yn diwallu eu hanghenion. Caiff rhaglen amrywiol o weithgareddau ei chynllunio er budd pob plentyn. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ac mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gael dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol gydag ethos o hunanwerthuso rheolaidd, sy'n arwain at welliannau parhaus. Cefnogir yr ymarferwyr ac mae partneriaethau agos â'r rhieni a'r ysgol.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad blaenorol:

- darperir rhestr o fyrbrydau a chaiff amserlen o'r drefn ddyddiol ei harddangos ar gyfer y rhieni ac
- mae'r plant yn mwynhau ardal ddarllen newydd.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhelliad mewn perthynas ag arferion o ran glanhau dwylo'r plant cyn bwyta.

## 1. Llesiant

**Da**

### Crynodeb

Mae gan y plant lefel uchel o lesiant am fod ganddynt lais cryf ac am eu bod yn gallu dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn hapus, wedi ymlacio ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r ymarferwyr gan gymryd rhan yn y gweithgareddau diddorol a gynigir. Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn dysgu sgiliau i'w helpu i fod yn annibynnol.

### Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol am eu bod yn gallu archwilio eu hamgylchedd yn ddirwystr a dewis o ardaloedd a oedd wedi'u gosod. Gwnaethant helpu eu hunain i amrywiaeth o weithgareddau a nôl bocsys o deganau. Gallent ddewis ble i chwarae a gyda phwy. Roedd y plant yn hyderus wrth gyfathrebu oherwydd roeddent yn gwybod bod eu mamiaith yn cael ei hystyried yn briodol. Roedd y plant yn mynegi eu hunain yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd y plant yn fodlon eu byd ac wedi setlo'n dda, ac roedd yr ymarferwyr yn siarad â nhw'n garedig. Roedd cydberthynas agos rhyngddynt â'r ymarferwyr ac roedd hyn yn amlwg pan oedd y plant yn cael hwyl gyda nhw ac roedd llawer o chwerthin i'w glywed. Roeddent yn gyfforddus, wedi ymlacio ac yn mynd yn hyderus at yr ymarferwyr yr oeddent yn gwybod y byddai'n eu helpu, er enghraifft, pan roeddent yn ansicr ble roedd eu bag amser mynd adref. Mae'r plant wedi meithrin cyfeillgarwch cadarn â'i gilydd wrth iddynt sgwrsio a chwarae gyda'i gilydd yn ystod amser byrbryd.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda â'r ymarferwyr. Roeddent yn cyd-weithio â nhw pan ofynnwyd iddynt ymgasglu ar gyfer amser cylch ac yn ystod amser cerddoriaeth roeddent yn cymryd rhan yn y symudiadau.  Cymerodd bron pob un o'r plant ofal priodol o'r cyfarpar a gwnaethant rannu adnoddau heb anogaeth. Clywsom y plant yn trafod a gweithio'n dda gyda'i gilydd wrth benderfynu pa anifeiliaid fferm oedd yn mynd i ba loc.

Roedd y plant yn uchel eu cymhelliant ac yn cael cynnig gweithgareddau cadarnhaol yn eu chwarae a'u dysgu. Roeddent yn mwynhau chwarae gydag eitemau byd bach a chymryd rhan mewn gêm ddychmygol am ymuno â'r syrcas, gan dalu ffi a chael tocyn. Gwnaethant gymryd eu tro i berfformio, gan chwifio rhubanau ac esgus bwyta popgorn. Gwnaethant hefyd fwynhau rholio peli i lawr ramp a oedd wedi'i wneud o gafnau plastig a gwylio'r peli'n rholio i mewn i bwll peli. Datblygodd hyn yn gêm didoli lliwiau. Roeddent yn mwynhau canu gyda thâp gan ddefnyddio sgarffiau a chlywsom blentyn yn dweud, “That was fantastic”.

Roedd gan y plant amrywiaeth dda o brofiadau gan gynnwys cyfleoedd chwarae a ddewiswyd yn rhydd a chyfleoedd wedi'u harwain ganddynt eu hunain a oedd yn eu galluogi i feithrin amrywiaeth dda o sgiliau fel siarad, gwrando, cyfrif a chwarae dychmygus. Dysgodd y plant am y tywydd a rhifau yn Gymraeg. Roedd ganddynt gydberthnasau cadarn â'r ymarferwyr cyson er mwyn eu helpu i fagu hyder. Roedd y plant wedi dysgu mynd i'r toiled yn annibynnol a golchi eu dwylo, a gallai’r rhan fwyaf o'r plant wisgo eu cotiau. Gwnaethant helpu eu hunain i deganau ac adnoddau a'u cyfarpar byrbryd.

## 2. Gofal a Datblygiad

**Da**

### Crynodeb

Mae'r ymarferwyr yn ofalgar, yn fagwrus ac yn ymateb i anghenion y plant. Maent yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n llwyddiannus gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol. Caiff gweithgareddau diddorol eu cynllunio'n ofalus a'u darparu er mwyn hybu dysgu a datblygiad y plant. Mae'r ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol y plant am eu bod yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda.

### Ein canfyddiadau

Roedd ymarferwyr hyderus a galluog yn gofalu am y plant ac yn diwallu eu hanghenion, drwy wybod am unrhyw alergeddau ac anghenion meddygol. Roeddent yn goruchwylio'r plant yn dda bob amser. Roedd yr ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Roedd pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac roedd y rhifau cyswllt yr oedd eu hangen yn cael eu harddangos, pe byddai pryder yn codi. Roedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a rhoddodd cofnodion manwl sicrwydd inni y byddai'r plant yn gadael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng.

Roedd yr ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd y plant mewn sawl ffordd. Roedd pob ardal yn lân ac roedd y byrddau'n cael eu glanhau gyda chwistrell gwrthfacterol. Darparwyd byrbryd maethlon o rawnfwyd a llaeth gyda dŵr neu laeth i'w yfed. Roedd gan bob ymarferydd gymwysterau Cymorth Cyntaf pediatrig cyfredol ac roedd ffurflenni damweiniau yn dangos bod digwyddiadau yn cael eu trin yn briodol a bod y rhieni'n cael gwybod amdanynt ac yn llofnodi'r cofnodion. Mae chwarae yn yr awyr agored ar yr amserlen bob dydd ond roedd hi'n bwrw glaw yn drwm felly ni aeth y plant allan. Gwelsom luniau o'r plant yn chwarae yn yr awyr agored. Gwnaethant fwynhau amser o gerddoriaeth a symud dan do yn lle hynny. Anogwyd y plant i olchi eu dwylo'n annibynnol ar ôl mynd i'r tŷ bach gan ddefnyddio'r basnau ymolchi a ddarperir gyda gris. Cyn y byrbryd, gwnaethant rannu powlen ymolchi yn y brif neuadd er mwyn golchi eu dwylo. Gan nad yw'r arfer hwn yn hylan, gwnaethom dynnu sylw'r person â chyfrifoldeb at hyn, a gytunodd i roi arferion golchi dwylo eraill ar waith.

Roedd yr ymarferwyr yn cymhwyso gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn llwyddiannus er mwyn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol drwy ddathlu ymddygiad da. Roeddent yn fodelau rôl da, drwy siarad yn dyner â'r plant ac esbonio gweithdrefnau mewn termau roeddent yn eu deall, megis sut i weithredu'r til. Roedd yr ymarferwyr yn glir ynglŷn ag ymddygiad megis dim rhedeg, ac yn rhoi gwybod i'r plant ymlaen llaw pan oedd yn amser tacluso. Roedd yr ymarferwyr yn annog ac yn canmol y plant am helpu ei gilydd, er enghraifft pan roeddent yn tacluso.

Roedd yr ymarferwyr yn ofalgar a magwrus ac yn ymateb i anghenion y plant, er enghraifft os oedd angen help arnynt i gario eu cadeiriau. Gwelsom yr ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant yn aml, gan greu awyrgylch hamddenol a'u helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd yr ymarferwyr wedi rhoi cardiau i'r plant gyda'u henwau arnynt yn

ystod amser byrbryd, a oedd yn eu helpu i adnabod eu henwau. Gwnaethant ddefnyddio cyfleoedd i'r plant gyfrif, er enghraifft, yn ystod amser byrbryd ac amser cylch. Roedd yr ymarferwyr yn hyderus ac wedi ymlacio gan eu bod yn meddu ar y cymwysterau a'r datblygiad proffesiynol i gyflawni eu rolau.

Roedd yr ymarferwyr yn dilyn egwyddorion y cyfnod sylfaen, ac roedd y gwaith cynllunio ysgrifenedig yn cynnwys gweithgareddau â ffocws wedi'u harwain gan oedolion. Roedd cofnodion manwl dyddiedig, lluniau ac arsylwadau'r plant unigol yn bwydo i mewn i'r gwaith cynllunio ysgrifenedig, yn dymhorol ac yn wythnosol, ac yn cynnwys chwarae yn yr awyr agored a pha sgiliau i'w hannog. Cymraeg yw iaith y gwasanaeth ac roedd y rhan fwyaf o'r plant yn deall popeth a ddywedwyd a gallai rhai ohonynt ddefnyddio brawddegau ac ymadroddion Cymraeg syml i ymateb. Defnyddiodd y person â chyfrifoldeb gymhorthion ac eitemau gweledol mewn ffordd fedrus er mwyn helpu'r plant yn greadigol yn ystod amser canu, gan ddefnyddio prenau i guro rhythm a chwifio sgarffiau. Gwelsom ffurflenni cofrestru cynhwysfawr a chaniatadau rhieni perthnasol sy'n galluogi'r ymarferwyr i ddarparu gofal unigol.

## 3. Yr Amgylchedd **Da**

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel ac mae asesiadau risg ysgrifenedig yn sicrhau bod pob ymarferydd yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r lle'n addas ac mae'r plant yn cael eu goruchwylio'n dda gan ymarferwyr gwybodus. Mae'r arweinwyr hefyd yn darparu amgylchedd sy'n amrywiol, yn ysgogol ac yn addas i'r plant. Mae ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau yn dda ac yn galluogi'r ymarferwyr i hyrwyddo datblygiad y plant yn llwyddiannus.

### Ein canfyddiadau

Roedd pob ardal yn ddiogel, ni chafwyd unrhyw fynediad diawdurdod a chadwyd cofnod o'r ymwelwyr. Roedd yr ardal chwarae yn yr awyr agored yn amgaeedig ac roedd y giatiau wedi'u cloi. Roedd yr ardaloedd dan do ac awyr agored yn glir rhag peryglon ac roedd asesiadau risg cynhwysfawr, gan gynnwys asesiad risg tân ar wahân a oedd wedi cael ei adolygu yn rheolaidd.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd cyfan yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae a dysgu. Roedd yr ardaloedd a oedd yn cael eu defnyddio yn fawr ac yn addas, ac roeddent yn cynnwys neuadd fawr, cegin, toiledau lefel isel, cyfleusterau golchi dwylo ac ardal chwarae awyr agored gaeedig. Roedd yr holl ardaloedd yn lân ac yn daclus, yn gynnes, yn olau ac yn canolbwyntio ar y plant. Roeddent yn cael eu defnyddio'n dda gan yr ymarferwyr fel bod gan y plant weithgareddau i'w diddori bob amser ac roedd yr ardaloedd yn cael eu gosod ar uchder y plant er mwyn iddynt allu eu defnyddio'n hawdd, ac roedd y dodrefn yn cynnwys cadeiriau a byrddau maint plentyn. Roedd yr ardal awyr agored yn cefnogi'r gwaith o ddysgu'r plant drwy roi egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith yn llwyddiannus a chynnig amrywiaeth eang o brofiadau i'r plant. Er enghraifft, wrth ddefnyddio clorian bwyso â cherrig crynion. Roedd yr amgylchedd yn gyfforddus, yn ysgogol ac roedd gan y plant ofod ar gyfer eu heiddo.

Gwnaeth yr arweinwyr yn siŵr fod amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da, a oedd yn addas o ran eu datblygiad ar gael i'r plant, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Roedd yr holl adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da ac roedd digon ohonynt i sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth a dewis da. Gwelsom ddigon o adnoddau a deunyddiau wedi'u storio, ac roedd y bocsys wedi'u labelu er mwyn hwyluso'r gwaith o dacluso. Roedd gemau a chardiau cartref hefyd. Gwelsom eu bod wedi dathlu digwyddiadau amlddiwylliannol megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gwelsom ddillad gwisgo i fyny addas er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas ehangach.

## 4. Arwain a Rheoli **Da**

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr yn wybodus ac yn ceisio darparu gwasanaeth o safon. Mae hunanwerthuso yn effeithiol a gwneir gwelliannau gan ystyried pawb dan sylw. Mae'r ymarferwyr yn cael eu rheoli'n dda ac mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cael digon o hyfforddiant, cymorth ac adnoddau yn barhaus. Mae partneriaethau â'r rhieni ac eraill yn effeithiol er budd y plant a'u teuluoedd.

**Ein canfyddiadau**

Mae gan yr arweinwyr ymdeimlad o ddiben sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliant a chanlyniadau da i'r plant. Roedd gan yr arweinwyr, gan gynnwys y person â chyfrifoldeb, y person cofrestredig a'r pwyllgor gwirfoddol, ymdeimlad o ddiben a disgwyliadau er mwyn hybu gwelliant. Gwelsom weithlu hapus a chymwys sy'n cael ei gefnogi'n dda, ac sydd wedi meithrin cydberthynas dda â'r plant a'r rhieni. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol yn cael eu cyflawni, fel yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a chafodd polisïau eu hadolygu.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda ac yn hyrwyddo ethos o hunanwerthuso a gwella parhaus. Mae systemau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaeth a ddarperir ac roeddent yn ceisio barn y rhieni ar gyfer yr adolygiad sydd i ddod. Cynhaliwyd hunanwerthusiadau rheolaidd gyda'r athro addysg gynnar ac roedd y rhain yn cynnwys yr hyn roedd y plant yn ei fwynhau neu'n ei ffafrio. Mae cryfderau a meysydd i'w datblygu yn cael eu nodi, a chymerir camau gweithredu er mwyn cynnal perfformiad a rhoi newid buddiol ar waith, megis gosod ardal ddarllen ar gyfer y plant.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y broses recriwtio'n cael ei rheoli'n dda i ddiwallu anghenion y plant. Roedd ymarferwyr ar gael i gyflenwi absenoldebau, gan sicrhau cysondeb i'r plant ac roedd gan bob un ohonynt wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaethom siarad â'r ymarferwyr a gadarnhaodd eu bod wedi cael profiad da yn ystod eu cyflogaeth. Roedd yr holl hyfforddiant gorfodol yn gyfredol, ac roedd yr arweinwyr wedi cwblhau arfarniadau blynyddol gan sicrhau bod gan yr ymarferwyr lais. Prynwyd adnoddau newydd megis peli o wahanol liw a phwll peli, gan adlewyrchu'r ethos o wella'n barhaus.

Roedd yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn hawdd mynd atynt ac yn cyfathrebu'n agored â'r rhieni, a chafodd gwybodaeth berthnasol ei rhannu â nhw ar lafar drwy ddefnyddio hysbysfwrdd a thudalen cyfryngau cymdeithasol ddiogel. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a bod yr ymarferwyr yn hynod o gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr ymarferwyr yn gweithio gydag asiantaethau allanol, fel yr athrawon blynyddoedd cynnar a'r ysgol i sicrhau bod gan y plant y cymorth gorau i ddiwallu eu hanghenion. Er enghraifft, maent yn cynnal sesiynau trosglwyddo i'r plant ymgyfarwyddo â'r ystafell ddosbarth a'r athro. Mae cysylltiadau â'r gymuned ehangach yn cynnwys y plant yn

mynd am dro o amgylch yr ardal, gan fynd i bostio llythyrau, a gwahoddir ymwelwyr i'r gwasanaeth megis aelod o'r gwasanaeth tân.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwyd gennym y dylai'r darparwr wneud y canlynol:

- Sefydlu gweithdrefn golchi dwylo amgen cyn i'r plant fwyta sy'n dilyn canllawiau ar arfer gorau mewn perthynas â rheoli heintiau.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â’r gwasanaeth ar 08 Mai 2019, rhwng 08.45 a 12.00. Gwnaethom adrodd ein canfyddiadau i'r person cofrestredig dros y ffôn ar 09 Mai 2019.

Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau sesiynau arsylwi er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr;
- siarad â'r plant, dau riant a dau ymarferydd;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir;
- cyflwyno ein canfyddiadau i'r person cofrestredig dros y ffôn.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Heddys Jones** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Lyndsey Richards** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **20** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-4 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun, dydd Mercher a dydd Iau rhwng 08.45 a 11.45 a phrynhawn dydd Gwener rhwng 13.00 a 15.30** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **03 Mawrth 2016** |
| **Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn** | **08 Mai 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy**<br>Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi – 17/09/2019**